Taith Mynydd Mawr

Cymedrol
Moderate

Dyma daith sy'n cynnig golygfeydd bendigedig, ac os ydych yn lwcus cewch y mynydd cyfan i'ch hunan! Yr enw lleol ar y mynydd yw Mynydd Eliffant gan fod ei siâp yn debyg i gefn eliffant wrth edrych arno o gyfeiriad Caernarfon.

Pellter: Tua 6 milltir
Amser: Tua 3-4 awr
Gradd: Cymedrol
Dechrau/diwedd: Maes parcio Rhyd Ddu ar yr A4085 rhwng Caernarfon a Beddgelert
Cyfleusterau: Toiledau, gorsaf drên, bwyd ar gael yn y pentref
Cyfeirnod grid: SH 571 526
Map perthnasol: OS Explorer Yr Wyddfa a Dyffryn Conwy OL 17
Tirwedd: Trac coedwig, glaswellt ac ar hyd crib serth

1. O fynedfa'r maes parcio, dilynwch y ffordd i'r dde tuag at dafarn y Cwellyn Arms a throi i'r chwith am Nantlle. Wedi mynd heibio'r arwyddion cyflymder, ar y dde fe welwch drac coedwig wedi ei arwyddo Rhyd Ddu a Llwybr Llechi. Dilynwch y trac sy'n arwain drwy'r goedwig am ryw 20-30 munud.
2. Dilynwch y llwybr cyntaf ar y chwith sy'n dringo'n serth drwy'r goedwig tuag at gamfa bren. Ewch drosti ac fe ddewch allan o'r goedwig gyda dechrau Crib Nantlle o'ch blaen. Bydd y llwybr yn dilyn y ffens tuag at y grib a'r copa.
3. Edrychwch i fyny tuag at y nenlinell a'r copa ac fe welwch binaclau Craig y Bera.
4. Wedi i'r goedwig ddod i ben ar eich ochr dde bydd y grib yn dringo'n serth – ond mae'r llwybr yn dda. Mae'r darn yma yn waith caled, ond mae'r golygfeydd ar ddiwrnod clir yn ei wneud gwerth yr ymdrech.
5. Rhaid croesi copa Foel Rûdd cyn cyrraedd copa Mynydd Mawr. O'r fan hon byddwch yn edrych i lawr ar bowlen fawr sef Cwm Planwydd. Mae'r gwaith caled drosodd yn awr, a bydd y llwybr i'r copa yn dilyn ymyl y bowlen i'r chwith mewn hanner cylch heibio Craig y Bera. Wrth fynd heibio'r pwynt yma ceir golygfa wych i lawr am Ddrws y Coed.
6. Parhewch i ddilyn y llwybr sy'n dringo'n raddol tuag at y copa. Ar ddiwrnod clir cewch fwynhau golygfeydd anhygoel tuag at Foel Hebog, Crib Nantlle, Caernarfon, Ynys Môn, Moel Eilio a'r Wyddfa, gyda'r Glyderau a Thryfan yn y cefndir.
7. Dilynwch yr un llwybr yn ôl i'r maes parcio yn Rhyd Ddu.

Mynydd Mawr Walk

Cymedrol
Moderate

This walk offers wonderful views, and if you're lucky you'll have the entire mountain to yourself! The local name on the mountain is Mynydd Eliffant (elephant mountain) as its profile from the Caernarfon direction resembles an elephant's back.



Distance: Around 6 miles
Time: Around 3-4 hours
Grade: Moderate
Start/finish: Rhyd Ddu car park on the A4085 between Caernarfon and Beddgelert
Facilities: Toilets, train station, refreshments available in the village
Grid reference: SH 571 526
Relevant map: OS Explorer Snowdon & Conwy Valley OL 17
Terrain: Forest track, grass and along a steep ridge.

1. From the car park entrance, follow the road to the right towards the Cwellyn Arms and turn left towards Nantlle. After passing the speed limit signs, on your right you will see a woodland track signposted Rhyd Ddu and Slate Trail. Follow the track that leads through the woodland for around 20-30 minutes.
2. Follow the first path on the left that climbs steeply through the woods towards a wooden stile. Climb over it and you will come out of the woodland with the start of the Nantlle Ridge ahead of you. The path will follow the fence towards the ridge and summit.
3. Look up towards the skyline and summit and you will see the pinnacles of Craig y Bera.
4. When the woodland on your right is behind you the ridge will begin to rise steeply - but there is a good path. This section is hard going, but the views on a clear day makes it worth the effort.
5. You must go over the summit of Foel Rûdd before reaching the summit of Mynydd Mawr. From this location you will be looking down into the large bowl shaped cwm of Cwm Planwydd. The hard work is now over, and the path to the summit will follow the rim of the bowl in a semi-circle to the left past Craig y Bera. When passing this spot you will see a fantastic view down towards Drws y Coed.
6. Continue to follow the path that climbs gradually towards the summit. On a clear day you can enjoy fantastic views towards Moel Hebog, Nantlle Ridge, Caernarfon, Anglesey, Moel Eilio and Snowdon, with the Glyderau and Tryfan in the background.
7. Re-trace your steps back to the car park in Rhyd Ddu.



© Hawlfraint y Goron 2018 OS 100022403
© Crown copyright 2018 OS 100022403

Hawlfraint Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.
Copyright Snowdonia National Park.

Graddfa / Scale : 1:16,000

www.eryri.llyw.cymru
01766 770 274
parc@eryri.llyw.cymru

PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK